

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Bethan Roberts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar

Nos Iau 18 Mawrth 2021 am 18.30

Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mair Pierce Owen

Y Cynghorydd David H Roberts

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Lowri Jones

Y Cynghorydd Sian Beidas

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith .

Croeso arbennig i Cyngor, Sian Beidas a David Roberts sy'n mynychu eu cyfarfod cyntaf.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2021.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – Y Clerc wedi ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i bwysleisio pryderon y Cyngor – derbyniwyd ymateb bod y gwasanaeth wedi gwneud bid am arian grant i ariannu gwelliannau yn y pentref. Cyflwynwyd y bid ar ddiwedd mis Ionawr. Does ddim dyddiad wedi ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar bryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y mater ond bydd y Cyngor mewn cysylltiad â ni cyn gynted a byddent yn derbyn unrhyw wybodaeth bellach. Y Clerc wedi hysbysu'r trigolion lleol drwy cynnwys y manylion yma ar cyfryngau cymdeithasol.

3.2 Llecyn Tir, Bont Twr – Wedi derbyn ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group. Mae'r mater bellach yn nwylo cyfreithwyr, a bydd yn ymateb pan fydd hi'n cael diweddariad.

3.3 Gyli ym Mhentref Llandygai – Cadarnhawyd fod Cyngor Gwynedd wedi gosod hwn ar eu rhaglen waith ac yn gobeithio gweithredu yn fuan iawn.

- 3.4 Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy – Mae'r bolard bellach wedi gael ei osod, ond nid yw'r bolard yn yn weladwy iawn. Cyng. Dafydd Owen wedi codi'r mater gyda Cyngor Gwynedd. Y Clerc wedi cysylltu eto, ond heb dderbyn ymateb.
- 3.5 'Knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai –. Cyng. Dafydd Owen i drafod y mater gyda'r perchennog. Cyng. Gabrielle Wyn wedi derbyn cynnig gan aelod o'r cyhoedd i fynd ar y safle i dynnu'r chwyn (hefo caniatad y perchennog), credwn nad yw'n syniad da tynnu'r chwyn gan y bydd hyn ond yn gwaethygu'r mater.
- 3.6 Llwybr Rhif 3 – swyddog llwybrau wedi ymateb i gadarnhau bydd arwyddion a giataiu newydd yn cael ei rhoid ar y llwybr. Cyng. Dafydd Owen i gael diweddariad.
- 3.7 Arhosfan bws ger Pant yr Ardd - Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd wedi rhoid archeb i fewn i gwmni o Fanceinion ar gyfer marciau ffordd safle bws. Y Clerc i holi pam nad ydynt yn defnyddio cwmnïau lleol i gwblhau'r gwaith.
- 3.8 Tipio anghyfreithlon ar hyd lon Dinas – Nid yw'r gwaith glanhau wedi gael ei gwblhau. Y clerck i cysylltu eto gyda Stad Penrhyn gan gynnwys yr adran iechyd a'r amgylchedd, Cyngor Gwynedd a aelod portffolio'r amgylchedd, Cyng. Gareth Griffiths. Y Cyng. Dafydd Owen bwysu ar y mater hefyd.
- 3.9 Draeniau yn ardal Mynydd Llandygai wedi gael ei glanhau – y Cyngor i gadw llygaid ar y sefyllfa yn y dyfodol.
- 3.10 Gofalwr Neuadd Talgai wedi colli goriad i hysbysfwrdd Llandygai – nid oes oriad yn y swyddfa, y Clerc i gysylltu eto gyda'r cwmni'r hysbysfwrdd i holi am un arall. Dim ymateb gan y cwmni eto.
- 3.11 Problemau baw ci – y Cyng. Dafydd Owen i wneud cais am ddau bin newydd, un yn Sling ac un arall ar Ffordd Tanrhiw yn Nhregarth.
- 3.12 Beiciau Modur yn tresmasu ar Gwaun Gynfi. Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu gyda Dewi Wyn Owen, Cyngor Gwynedd i ofyn os oes bosib gael giat newydd yn y fynediad o Tan y Bwlch, i atal mynediad i'r beiciau yn y dyfodol. Cyng. Dafydd Owen i gael diweddariad ar y mater.
- 3.13 Adroddiad Llifogydd Mynydd Llandygai – Diolchwyd Cyng. Lowri Jones am baratoi'r ymateb i'r adroddiad hwn. Nid yw'r Clerc wedi derbyn ymateb hyd yn hyn, y Clerc i holi YGC.
- 3.14 Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lon Llwybr Main o gyfeiriad Lon y Grug.
- 3.15 Waliau llechi rhwng Fron Ogwen a Tyn Clwt wedi'i chwalu yn dilyn damweinau ceir, y tirlfeddianwr yn ymwybodol ac yn edrych i fewn i'r mater.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2021'

Cyflwynwyd: Zurich Municipal – Yswiriant y Cyngor – Penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant gyda'r cwmni.

Cyflwynwyd: Ebost Cyng. Dafydd Roberts – Carreg filltir Tregarth – Nodwyd fod y garreg filltir hanesyddol rhwng Felin Hen a mynedfa Pantycyff wedi torri. Penderfynwyd i'r Cyngor achub y darn rhydd a cysylltu gyda'r adran priffyrdd.

5. Rhoddion

Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn. (*Datgan diddordeb pan fo angen*)

Llais Ogwan	£350.00
Ambiwllans Awyr	£200.00
Clwb Criced a Bowlio Bethesda	£200.00
Cylch Meithrin Tregarth	£300.00
Cylch Meithrin Mynydd Llandegai	£300.00
Dawns i bawb	£50.00
Eisteddfod Dyffryn Ogwen	£400.00
Theatr Bara Caws	£200.00

6. Lwfans Blynyddol

Pawb wedi derbyn ffurflenni ar gyfer y lwfans blynyddol – ffurflen TWE neu'r ffurflen 'optio allan'. Fydd yr lwfans yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, drwy system TWE.

7. Gwaith y Mis

- 7.1** Nodwyd y Cyng. Dafydd Owen ei fod wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd torri'r iorwg tu ôl i'r cysgodfan bws yn Sling. Hefyd, nodwyd fod panel metel wedi dod yn rhydd ar y cysgodfan bws ar Ffordd Tanrhiw, y Cynghorydd wedi cysylltu gyda contractwr lleol gyda'r bwriad o'i drwsio.
- 7.2** Sonwyd Cyng. Angharad Williams fod yno dwy lechan fawr gyda barddoniaeth arnynt ar dir Moleyci. Mae'r dwy lechan wedi ei orchuddio gyda ordyfiant. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn holi Moelyci amdanynt, a gofyn os oes modd ei ymddangos yn rhywle mwy weladwy ac ei bod yn drueni gweld nhw wedi'i cuddio.
- 7.3** Nodwyd y Cyng. Richard Fraser-Williams bod y ffordd rhwng Llwybr Main a Tanybwllch wedi'i ymchwal oherwydd y dwr yn llifo oddi ar y Foel. Cyng. Dafydd Owen i hysbysu Cyngor Gwynedd.

8. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Ysgol Tregarth – Cyng. Dafydd Owen wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf, dim llawer wedi'i drafod oherwydd nid oedd yr ysgol ar agor yn llawn oherwydd cofid.

Canolfan Tregarth – Cyfarfod nesaf i'w gynnal wythnos nesaf.

Cyfarfod Cyhoeddus Strategaeth Parcio – Parc Eryri Cenedlaethol – Cyngor. Iwan Hywel a Dafydd Roberts wedi mynychu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fawrth 2021.

9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

9.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Chwefror. Derbyniwyd yr adroddiad.

9.2 Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn chwarterol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

10. Taliadau

Awdurododwyd y taliadau canlynol:

Partneriaeth Ogwen	Cyfraniad at Swyddog Cynnal	£1386.78
Partneriaeth Ogwen	Glanhau graffiti – Lloches bws Llandygai	£27.14

11. Penderfyniadau Cynllunio C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy
Penderfyniad: Ar y gweill.

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo
Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau.

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.
Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0079/16/DT

Bryn Celyn, Tal Gae, Tregarth
Cais deiliad ty ar gyfer dymchwel
adeiladau allanol to un-codiad, codi
estyniad ochr/cefn unllawr a man
newidiadau i'r eiddo
Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0052/16/HD

Canolfan Ailgylchu Bangor Ystâd
Ddiwydiannol Llandygai
Cais rhybudd o flaen llaw i ddymchwel
adeilad canolfan ailgylchu
Penderfyniad: Caniatwyd heb
amodau.

12. Ceisiadau Cynllunio

C21/0190/16/LL

Ysgubor Y Gelli Lôn Y Wern, Tregarth
Newid defnydd o modurdy i lety
gwylliau hunanwasanaethol
Penderfyniad: Cefnogi

C21/0168/16/LL

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda
Codi adeilad ar gyfer cynnal a chadw
cerbydau a storio cyfarpar offer

Penderfyniad: Cenfogi mewn
egwyddor, mae'r adeilad yn cynnwys
"pit" ar gyfer cynnal a chadw
peiriannau. Os oes posibilrwydd o
lygredd yn sgil y gwaith cynnal a
chadw (e.e. olew, neu hylifoedd eraill,
yn cael ei ryddhau o beiriannau) yna
bydd angen sicrhau nad ydi'r llygredd
yma yn cyrraedd systemau draeniau yr
adeilad.

C21/0249/16/DT

3, Bron Ogwen, Tregarth
Estyniad deulawr yn y cefn

Penderfyniad: Cefnogi

12. Unrhyw fater brys arall

Ysgol Tregarth – Nodwyd fod yr ysgol wedi gofyn am cynrychiolwr ychwanegol i
Lywodraethwyr yr Ysgol, y Clerc i ddanfôn manylion Cyng. Angharad Williams unwaith
eto.